Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Datganiad i'r wasg

**Dyddiad:** 8 Rhagfyr 2009

**Teitl**: Gwobr arian gyntaf am CCAUC iach

CCAUC yw'r corff cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr iechyd gweithle bach Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y lefel arian.

Mae'r wobr yn cydnabod mesurau a gymerir mewn cyrff llai i helpu i wella iechyd a lles y staff.

Cafodd CCAUC ei ganmol am yr amrywiaeth o ddefnyddiau ac adnoddau sydd ar gael i'r staff, a'r polisïau a gweithdrefnau a gyflwynwyd i hybu iechyd a lles corfforol a meddyliol.

Cafodd glod hefyd am roi cyfle i'r staff ddweud eu dweud drwy gyfrannu at fentrau neu grwpiau yn y gweithle.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae corff effeithiol yn gofalu am les ei staff. Rydym wedi annog y staff i feddwl am unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt – o wybodaeth am anhwylderau cyhyrol-sgerbydol neu weithgarwch corfforol, i ble i gael atebion i gwestiynau am reoli straen neu ddeiet.

"Mae cydnabod pwysigrwydd iechyd a lles, nid yn unig drwy ddarparu adnoddau a gweithredu polisïau, ond hefyd drwy ddiwylliant a gwerthoedd CCAUC, yn helpu i ysgogi a chynnal gweithlu uchel ei gyflawniadau."

Diwedd

**Nodiadau**

**Cysylltwch ag**
Emma Raczka,
Rheolwr Cyfathrebu, CCAUC
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Y wobr iechyd gweithle bach yw'r nod ansawdd cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle i fusnesau a chyrff llai yng Nghymru.

Mae tair lefel i'r wobr (efydd, arian ac aur) i gydnabod pob cam datblygu a gyrhaeddir.

http://www.healthyworkingwales.com/

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.